**DADANSODDI ADRODDIADAU AROLWG**

***(Gorffennaf 2024 - Mawrth 2025)***

<table>
<tr><th colspan="2">Ysgol</th><th>Dyddiad yr arolwg</th><th>Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad</th></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Parc y Bont</td><td>Llanddaniel Fab (105 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>01/07/2024</td><td>3/9/2024</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae bron i bob disgybl yn falch o’u cyfraniad at weithgareddau codi arian at achosion dyngarol pwrpasol, er enghraifft, drwy godi arian i helpu preswylwyr Wcráin. Mae hyn yn cael effaith gref ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o anghenion eraill yn eu cymuned a’r byd ehangach ac yn cyfrannu’n dda at eu datblygiad moesol.<br><br>Mae staff yn darparu sesiynau addoli ar y cyd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar foesau a sut i ofalu am ei gilydd mewn cymdeithas gynhwysol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio credoau yn fuddiol; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn creu animeiddiad yn dweud Stori’r Geni ac yn ymchwilio i draddodiadau’r wŷl Diwali. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cymryd mantais o gyfleoedd pwrpasol i wahodd ymwelwyr, gan gynnwys rhieni, i siarad gyda disgyblion ynglŷn â’u bywydau, eu crefyddau a’u treftadaeth.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gymuned Rhosybol</td><td>Rhosybol, Amlwch (74 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>23/09/2024</td><td>25/11/2024</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dim sylwadau</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Llanbedrgoch</td><td>Llanbedrgoch (17 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>05/11/2024</td><td>09/01/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd ysbrydol a moesol pwysig, gan gynnwys yr angen i barchu pawb yn y gymdeithas a bod yn ffrind da i eraill. Mae hyn yn effeithiol i sicrhau bod gan bron i bob disgybl ddealltwriaeth o’r egwyddorion pwysig y maent eu hangen i fod yn ddinasyddion deallus a gwybodus.</td></tr>
<tr><td>Ysgol David Hughes (Uwchradd)</td><td>Porthaethwy (1132 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>03/02/2025</td><td>07/04/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae barn disgyblion yn cael dylanwad cryf ar fywyd ysgol, gyda chyngor ysgol gweithredol sy’n gweithio ag uwch arweinwyr i fynd i’r afael â materion megis bwlio. Mae system adrodd ddigidol wedi cynyddu hyder disgyblion i adrodd ar broblemau ac mae gwefan y cyngor ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a’r gymuned. Mae grwpiau thematig yn cyfrannu’n gadarnhaol at ethos yr ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys grŵp UNICEF sy’n hyrwyddo cydraddoldeb, a’r grŵp Cymreictod sy’n dathlu diwydiant Cymreig drwy weithgareddau yn y gymuned leol.<br><br>Mae’r grŵp UNICEF yn angerddol dros hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn yr ysgol, fel y gwelir yn ei waith ar wrth-hiliaeth.<br><br>Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy’n rhoi cyfleoedd dysgu cyfoethog i ddisgyblion.<br><br>Mae plant mwy abl yn llwyddo i ddod i gasgliadau deallus yn seiliedig ar ddarllen darnau, megis wrth ddadansoddi ymatebion Iddewig i’r argyfwng Shoah mewn addysg grefyddol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Mae’r gwersi iechyd a lles, sesiynau boreol ‘Llun Lles’ a gwasanaethau yn cefnogi ac yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwydiannol disgyblion. Maent yn cynnwys themâu pwysig megis sut i adeiladu gwytnwch, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, straen ac addysg ryw.<br><br>Mae adrannau hefyd yn hyrwyddo barn disgyblion ac yn ymateb i’w sylwadau yn effeithiol wrth addasu dulliau dysgu ac addysgu. Er enghraifft, mae’r adran addysg grefyddol wedi newid ei dulliau o wirio dealltwriaeth i ddefnyddio byrddau gwyn bach o ganlyniad i adborth gan ddisgyblion.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gymuned Bryngwran</td><td>Bryngwran, Caergybi (43 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>10/02/2025</td><td>14/04/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Darperir cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys, sy’n adeiladu’n gydlynol ar ddealltwriaeth disgyblion o’u sgiliau yn effeithiol.<br><br>Mae agweddau ysbrydol a moesol disgyblion yn cael eu hyrwyddo’n effeithiol drwy gyfnodau o fyfyrio a sesiynau addoli cyson, ymweliadau rheolaidd a pherfformio cyngherddau yn yr eglwys leol. Yn ogystal â hyn, mae trafod gwerthoedd a hawliau plant yn rhan annatod o waith yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Bodedern</td><td>Bodedern, Caergybi (98 o ddisgyblion ar y gofrestr)</td><td>10/03/2025</td><td>15/05/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dim sylwadau</td></tr>
</table>